

1. Cyfansoddiad y Cyngor

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno ar gyfansoddiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y gwneir penderfyniadau, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i'r bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn gyfreithiol ofynnol, tra bod eraill yn fater o ddewis i'r Cyngor.

Rhennir y Cyfansoddiad yn 16 o erthyglau sy'n cyflwyno'r rheolau sylfaenol sy'n llywio busnes y Cyngor. Darperir gweithdrefnau a chodau ymarfer mwy manwl mewn rheolau a phrotocolau ar wahân ar ddiwedd y ddogfen.

2. Beth sydd yn y Cyfansoddiad?

Mae Erthygl 1 o'r Cyfansoddiad yn ymrwmo'r Cyngor i wneud penderfyniadau mewn modd effeithlon ac effeithiol, gan roi arweiniad o fewn y gymuned, gweithio mewn partneriaeth ag eraill a chymryd barn y trigolion lleol i ystyriaeth. Mae Erthyglau 2–15 yn egluro hawliau dinasyddion a sut mae rhannau allweddol y Cyngor yn gweithredu. Dyma'r rhestr:

Aelodau'r Cyngor (Erthygl 2)
Dinasyddion a'r Cyngor (Erthygl 3)
Swyddogaeth a Chyfarfodydd y Cyngor (Erthygl 4)
Cadeirio'r Cyngor (Erthygl 5)
Pwyllgorau Craffu (Erthygl 6)
Y Cabinet (Erthygl 7)
Pwyllgorau Rheoleiddio (Erthygl 8)
Y Pwyllgor Safonau (Erthygl 9)
Trefniadau ar y Cyd (Erthygl 10)
Swyddogion (Erthygl 11)
Gwneud Penderfyniadau (Erthygl 12)
Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol (Erthygl 13)
Adolygu a Diwygio'r Cyfansoddiad (Erthygl 14)
Atal, Dehongli a Chyhoeddi'r Cyfansoddiad (Erthygl 15)

3. Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu

3.1 Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o gynghorwyr a etholir fel arfer bob pum mlynedd. Mae cynghorwyr yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hetholaeth. Mae prif ddyletswydd cynghorwyr i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na fu iddynt bleidleisio drostynt.

3.2 Mae'n rhaid i gynghorwyr gytuno i ddilyn côd ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn y modd y cyflawnant eu dyletswyddau. Mae'r Pwyllgor Safonau yn eu hyfforddi a'u cynghori ynghylch y Côd Ymddygiad.

3.3 Mae'r cynghorwyr i gyd yn cyfarfod ar ffurf y Cyngor (mae newid yn y rheolau bellach yn gadael i'r Cyngor gwrdd wyneb yn wyneb, yn rhithwir neu gyfuniad o'r ddau - hybrid). Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer ar agor i'r cyhoedd ac mae rhai cyfarfodydd hefyd yn cael eu gweddarlledu ar wefan y Cyngor. Yma mae cynghorwyr yn penderfynu ar bolisiau cyffredinol y Cyngor ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn. Mae gan y Cyngor Fwrdd Gweithredol sydd yn gyfrifol yn ei dro am weithredu polisiau y cytunir arnynt gan y Cyngor, a chymryd penderfyniadau gweithredol ar faterion nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r Cyngor nac un o'i bwyllgorau. Mae'r Cyngor hefyd yn cymeradwyo'r Cyfansoddiad, y flaenraglen waith a'r rheolau trafodaeth ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau.

4. Sut y Gwneir Penderfyniadau

- a) Y Cabinet yw'r rhan o'r Cyngor sy'n gyfrifol am wneud mwyafrif y prif benderfyniadau. Mae'r Cabinet yn cynnwys uchafswm o ddeg o gynghorwyr (yn amodol ar baragraff 4 (c) isod). Penodir yr Arweinydd gan y Cyngor ac ef/hi sydd wedyn yn penodi aelodau eraill y Bwrdd Gweithredol, a fydd yn cynnwys hyd at 2 Ddirprwy Arweinydd. Cyhoeddir y busnes sydd i'w ystyried gan y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu a'r cyngor yn gyffredinol yn eu Blaenraglenni Gwaith. Mae cyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu, y Cyngor a phwyllgorau eraill yn agored i'r cyhoedd eu mynychu ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod, fel y diffiniwyd gan y gyfraith. Mae'n rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau sydd yn unol â pholisiau cyffredinol a chyllideb y Cyngor. Os dymuna wneud penderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, cyfeirir hynny fel arfer at y Cyngor cyfan. Ceir rhai eithriadau i'r weithdrefn hon, a nodir yn Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.
- b) Gall yr Arweinwyr benodi 'Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth' nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet ond y mae ganddynt hawl i fynychu, a siarad yn, unrhyw gyfarfod o'r Cabinet neu unrhyw un o Bwyllgorau'r Cabinet (dod i rym ar 1 Mai 2022)
- c) Hefyd mae gan yr Arweinydd y grym i benodi Arweinydd sy'n rhannu swydd ac Aelodau o'r Cabinet sy'n rhannu swydd, cyn belled â nad yw'r nifer fwyaf sydd ar y Cabinet yn fwy na thair ar ddeg (dod i rym ar 1 Mai 2022)

5. Craffu

Mae Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau a 4 o bwyllgorau craffu eraill sy'n cynnal gwaith y Cabinet a'r Cyngor yn gyffredinol. Maent yn gallu adolygu materion o fewn eu cylch gwaith a gwahodd cynrychiolwyr allanol i gyfrannu at eu trafodion, naill ai un tro neu fel aelodau heb bleidlais. Mae'r Pwyllgorau hyn yn cyflwyno eu barn a'u hargymhellion ar gyfer ystyriaeth i'r Cabinet ac i'r Cyngor yn gyffredinol y nghylch ei bolisiau, a chyflwyno gwasanaethau. Mae'r Pwyllgorau Craffu hefyd yn monitro penderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol. Gallant 'alw i mewn' benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, aelodau unigol o'r Cabinet neu swyddog, cyhyd ag

nad yw eto wedi ei weithredu. Mae hyn yn eu galluogi i ystyried a yw'r penderfyniad yn briodol. Gallant argymhell bod y sawl a luniodd y penderfyniad yn ei ailystyried. Hefyd gall y Cabinet neu'r Cyngor ymgynghori â hwy ynghylch eitemau busnes fydd yn cael eu hystyried yn y flaenraglen waith.

6. Staff y Cyngor

Mae gweithwyr y Cyngor yn rhoi cyngor, yn gweithredu penderfyniadau ac yn rheoli'r modd y cyflwynir ei wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae dyletswydd benodol ar rai swyddogion i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio ei adnoddau yn ddoeth. Mae côd ymarfer yn rheoli'r berthynas rhwng swyddogion ac aelodau'r cyngor. (Rhan 5 o'r Cyfansoddiad).

7. Hawliau Dinasyddion

7.1 Mae gan ddinasyddion nifer o hawliau wrth ymdrin â'r Cyngor. Cyflwynir y rhain yn fanylach yn Erthygl 3. Mae rhai o'r rhain yn hawliau cyfreithiol, tra bod eraill yn dibynnu ar brosesau'r Cyngor ei hun. Lle bo aelodau'r cyhoedd yn defnyddio gwasanaethau penodol y Cyngor, er enghraifft, fel rhiant i ddisgybl mewn ysgol neu fel un o denantiaid y cyngor, mae ganddynt hawliau ychwanegol. Ni roddir sylw i'r rhain yn y Cyfansoddiad hwn. Mae gan ddinasyddion hawl i'r canlynol:-

- pleidleisio mewn etholiadau lleol os ydynt wedi eu cofrestru;
- cysylltu â'u cynghorydd lleol ynghylch unrhyw faterion sydd yn destun pryder iddynt;
- cael copi o'r Cyfansoddiad;
- mynychu cyfarfodydd o'r Cabinet, y Cyngor a'i bwyllgorau i arsylwi (ac eithrio lle bo materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod);
- deisebu i ofyn am refferendwm ar ffurf gweithrediaeth gyda maer;
- deisebu'r Awdurdod ar unrhyw fater y mae gan yr Awdurdod swyddogaethau yn eu cylch, neu sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod, neu ran ohoni, neu drigolion yr ardal neu rai ohonynt. Mae cynllun deisebu'r Cyngor wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.
- Gall y cyhoedd, cyn belled â'u bod yn byw yn y sir, yn berchen busnes yn y sir, neu'n cael eu cyflogi yn y sir, ofyn cwestiynau i aelodau'r Weithrediaeth yng nghyfarfodydd arferol y Cyngor, yn unol â'r rheolau a bennir yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad hwn.
- Cyfrannu at benderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys gwneud penderfyniadau (mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall) fel yr eglurir yn 'Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd' y Cyngor. Mae Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor..
- darganfod, o'r flaenraglen waith, pa fusnes sydd i gael ei ystyried gan y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu neu'r cyngor yn gyffredinol;

- gweld adroddiadau a phapurau cefndir a ystyriwyd gan y Cabinet, y Cyngor ac unrhyw rai o'i bwyllgorau a'r cofnod o unrhyw benderfyniadau a wnaed gan y Cyngor, ei bwyllgorau a'r Cabinet, ac eithrio lle maent yn cynnwys gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol;
- cwyno wrth y Cyngor am unrhyw fater sy'n peri pryder ynghylch darparu gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn trin unrhyw anfonlonrwydd a fynegir am ddarparu gwasanaeth fel cwyn. Gellir gwneud cwyn drwy ddod i'r swyddfa yn bersonol, drwy ffonio, drwy ysgrifennu at y Cyngor neu drwy anfon e-bost. Ymdrinnir â hwy gan yr adran berthnasol, ac mae hawl i apelio, at y Prif Weithredwr yn y pen draw, os yw'r sawl sy'n cwyno yn anfonlon ar yr ymateb a dderbyniwyd. Mae'r Cyngor yn defnyddio cwynion yn fodd i wella'r gwasanaeth yn barhaus, drwy edrych ar y rhesymau dros y cwynion, cymryd camau priodol i ddatrys y problemau, a mynd i'r afael â diffygion yn y prosesau a'r gweithdrefnau;
- cwyno wrth yr Ombwdsmon os credant eu bod wedi dioddef anghyfiawnder oherwydd nad yw'r Cyngor wedi dilyn ei weithdrefnau'n briodol. Fodd bynnag, fe'u hanogir i beidio â gwneud hyn hyd nes y bônt wedi defnyddio proses cwynion y Cyngor ei hun yn gyntaf;
- cwyno yn ysgrifenedig wrth yr Ombwdsmon os oes ganddynt dystiolaeth y credant sy'n dangos nad yw cynghorydd neu aelod cyfetholedig o'r cyngor wedi dilyn Côt Ymddygiad yr Aelodau; ac
- archwilio cyfrifon y Cyngor a mynegi eu barn i'r archwilydd allanol.

7.2 Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan ei ddinasyddion yn ei waith. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel dinesydd, cysylltwch â Linda Rees-Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith drwy ffonio 01267 224010 neu ebostio LRJones@sirgar.gov.uk;

7.3 Mae datganiad y Cyngor ynghylch hawliau dinasyddion i archwilio agendâu ac adroddiadau a mynychu cyfarfodydd wedi ei nodi yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn Mynediad at Wybodaeth.